Rhif: WG39581

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Y Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 drafft

Dyddiad cyhoeddi: 22 Mehefin 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 1 Medi 2020

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

Trosolwg

Mae adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor ddynodi swyddi penodol er mwyn, os yw person yn dal un o'r swyddi hynny, ei fod wedi ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd[1] (ond nid rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd).

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn am ba swyddi y dylid eu cynnwys yn y Gorchymyn newydd, y Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymwyso) 2020 drafft a fydd yn dirymu ac yn disodli'r Gorchymyn presennol, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy gwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, yng nghefn y ddogfen hon, erbyn y dyddiad cau a'i dychwelyd atom yn y post i'r cyfeiriad isod. Mae trefniadau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau y derbynnir ymatebion sy'n cael eu cyflwyno drwy'r post yn ystod y pandemig COVID-19.

Y Cyfansoddiad a Chyfiawnder
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Gellir hefyd anfon y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad atom drwy e-bost:

CAUMailbox@llyw.cymru

Wrth anfon eich ymateb drwy e-bost, gofynnwn ichi roi **Ymgynghori ar Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020** fel teitl i'ch e-bost.

Fel arall, mae ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan

www.llyw.cymru/ymgyngoriadau

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru - Gorffennaf 2014

[1] Cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Deddfau'r Cynulliad a chyrff a swyddi amrywiol yn ymwneud â'r Cynulliad eu hailenwi gan Ran 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. Daeth y newidiadau hyn i effaith ar 6 Mai 2020.

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adroddiad ar Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i Anghymhwyso Person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015

Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Cyfansoddiad a Chyfiawnder
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: CAUMailbox@llyw.cymru

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o wybodaeth am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

Y Cefndir

Yn 2014, cynhaliodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Senedd ymchwiliad i'r rheolau sy'n ymwneud ag anghymhwyso person rhag bod yn aelod o'r Senedd[2]. Roedd yr ymchwiliad hwnnw yn cynnwys 21 o argymhellion ac yn cynnig trawsnewid y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghymhwyso person rhag bod yn aelod o'r Senedd.

Roedd Llywodraeth Cymru yn cytuno â phrif fyrdwn adroddiad y Pwyllgor. Roedd y meini prawf ar gyfer pennu pa swyddi y dylid eu cynnwys yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor, ynghyd â rhai ystyriaethau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r un meini prawf wedi cael eu defnyddio ar gyfer y Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 drafft a fydd yn dirymu ac yn disodli'r Gorchymyn presennol.

Ble'r ydym ni nawr?

Mae adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhestru personau sydd wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd. Yn ogystal â'r swyddi hynny a restrir yn adran 16, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ar gyfer Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ("Gorchymyn Anghymhwyso") i ddynodi swyddi eraill y byddai eu deiliaid yn cael eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Senedd. O bryd i'w gilydd, gall deddfwriaeth arall hefyd anghymhwyso deiliaid rhai swyddi penodol rhag bod yn aelodau o'r Senedd.

Ar hyn o bryd, mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 yn parhau i fod mewn grym, felly mae personau sy'n dal unrhyw un o'r swyddi a restrir yng Ngorchymyn 2015 wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn aelodau o'r Senedd.

Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

Argymhellion eraill a wnaed gan y Pwyllgor oedd y dylid diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddarparu y dylai anghymhwyso person rhag dal swydd gyhoeddus benodol ddod i effaith adeg tyngu'r llw teyrngarwch neu roi'r cadarnhad teyrngarwch fel Aelod o'r Senedd. Yn yr un modd, dylid diwygio'r darpariaethau perthnasol yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr, wrth dderbyn enwebiad, ddatgan nad ydynt, hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred, yn dal swydd sy'n eu hanghymhwyso, i adlewyrchu hyn.

Mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd y cynhelir y bleidlais ar eu cyfer ar 5 Ebrill 2012[3] neu wedi hynny, mae Rhan 4 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn diwygio adran 16 o Ddeddf 2006 fel ei bod yn gwahaniaethu rhwng anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o'r Senedd a rhag bod yn ymgeisydd ar gyfer ei ethol i'r Senedd, ac anghymhwyso person rhag bod yn aelod yn unig.

---

[2] Cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Deddfau'r Cynulliad ac chyrff a swyddi amrywiol yn ymwneud â'r Cynulliad eu hailenw gan Ran 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. Daeth y newidiadau hyn i effaith ar 6 Mai 2020. Cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ailenwi yn Senedd Cymru neu Welsh Parliament. Cyfeirir ati yng ngweddill y ddogfen hon fel y Senedd.

[3] Gweler adran 42 (Dod i rym) o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

Mae adran 16 hefyd wedi cael ei diwygio i ddarparu nad yw personau sy'n dal swydd a nodir mewn Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor wedi'i anghymhwyso os yw'r person yn ymddiswyddo o'r swydd cyn tyngu'r llw (neu roi'r cadarnhad cyfatebol) fel Aelod o'r Senedd.

Mewn cyferbyniad, mae darpariaeth newydd wedi'i fewnosod yn adran 16 o Ddeddf 2006 sy'n darparu y caiff person ei anghymwyso rhag bod yn Aelod, a rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd, os yw'n perthyn i unrhyw un o'r categorïau o bersonau a nodir yn Rhan 1 o'r Atodlen 1A newydd i Ddeddf 2006, neu os yw'n dal unrhyw un o'r swyddi a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 1A (a fewnosodwyd gan adran 29(7) o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020). Os bydd person sydd wedi'i anghymhwyso rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd yn cael ei enwebu fel ymgeisydd mewn etholiad, bydd yr enwebiad hwnnw yn ddi-rym[4].

Mae'r Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 drafft wedi cael ei ddrafftio i adlewyrchu'r newidiadau hyn a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r rhain. Felly, pan fo swydd bellach wedi'i rhestru yn yr Atodlen 1A newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i cyflwynwyd gan Atodlen 3 i Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020) nid yw'r swyddi hyn wedi cael eu cynnwys yn y Gorchymyn 2020 drafft newydd. Mae **Atodiad A** yn cynnwys rhestr o swyddi presennol yng Ngorchymyn 2015 nad ydynt wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn 2020 am y rheswm hwn.

Bydd newidiadau yn cael eu gwneud i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 cyn 5 Ebrill 2021, i ddiwygio'r gofyniad ar unigolion i ddatgan nad ydynt yn dal swydd sy'n eu hanghymhwyso cyn derbyn enwebiad i fod yn ymgeisydd.

Pam mae angen Gorchymyn Anghymhwyso newydd?

Cyn pob etholiad cyffredinol y Senedd, gwneir Gorchymyn Anghymhwyso newydd sy'n dirymu'r Gorchymyn blaenorol ac sy'n nodi rhestr newydd o swyddi sy'n anghymhwyso.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r Gorchymyn drafft i'w gymeradwyo gan y Senedd cyn ei gyflwyno'n ffurfiol gerbron Ei Mawrhydi yn Ei Chyngor yn ddiweddarach eleni.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r swyddi y cynigir eu bod yn cael eu cynnwys yn y Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 drafft. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r anghymwysiadau a nodir yn adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 1A iddi, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ac unrhyw anghymwysiadau penodol eraill y darperir ar eu cyfer mewn deddfwriaeth arall er mwyn cynhyrchu'r rhestr lawn o swyddi sy'n anghymhwyso.

[4] Gweler adran 18A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan adran 34 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

Meini prawf ar gyfer pennu pa swyddi ac aelodaeth o gyrff y dylid eu cynnwys yn y Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 drafft

I'r graddau mwyaf posibl o dan y fframwaith deddfwriaethol presennol, mae'r egwyddorion canlynol (sy'n gyfuniad o'r egwyddorion a argymhellwyd yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghyd â rhai ystyriaethau ychwanegol o ymateb Llywodraeth Cymru), wedi'u defnyddio er mwyn pennu pa swyddi y dylid ystyried eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso drafft.

Egwyddorion cyffredinol a nodwyd yn argymhelliad 1 o adroddiad y Pwyllgor:

- Egwyddor 1: Mae hyrwyddo cyfranogiad democrataidd a'r hawl i sefyll fel Aelod o'r Senedd yn hollbwysig.

  Egwyddor 2: Dylai anghymhwyso person rhag bod yn aelod o Senedd Cymru gael ei gyfyngu i gyn lleied o ddinasyddion â phosibl.

  Egwyddor 3: Mae gweithgarwch gwleidyddol yn amhriodol yng nghyswllt rhai dinasyddion er mwyn:
  i. amddiffyn annibyniaeth y broses etholiadol;
  ii. atal gwrthdaro rhag codi rhwng buddiannau pan gaiff unigolyn ei ethol; a
  iii. amddiffyn rhai swyddi cyhoeddus rhag rhagfarn wleidyddol.

  Egwyddor 4: Dylai gorchymyn anghymhwyso fod yn berthnasol i'r dinasyddion canlynol:
  i. y rheini y mae eu rôl yn gofyn iddynt fod yn gwbl ddiduedd, gan gynnwys y rheini y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys y broses etholiadol ei hun;
  ii. y rheini sy'n dal unrhyw swydd gyhoeddus lle derbynnir budd ariannol sylweddol oddi wrth Lywodraeth Cymru;
  iii. y rheini sydd mewn swydd gyhoeddus ac yn darparu cyngor ffurfiol i Lywodraeth Cymru yn y rôl honno;
  iv. y rheini sy'n dal unrhyw swydd gyhoeddus y mae'r Senedd yn craffu arni.

  Egwyddor 5: Os oes rhaid anghymhwyso, rhaid iddynt fod:
  i. yn gyson â'r egwyddorion hyn;
  ii. yn glir ac yn ddiamwys;
  iii. yn gymesur.

- Dylai'r swyddi a ddisgrifir yn argymhelliad 12 o Adroddiad y Pwyllgor fod yn swyddi anghymhwyso a dylid eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso, oni bai eu bod eisoes yn swyddi anghymhwyso ac wedi'u cynnwys o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

- Dylai aelodau tribiwnlysoedd barnwrol gael eu hanghymhwyso.

- Fel rheol, dylai unigolion a benodir gan Weinidogion Cymru gael eu hanghymhwyso, ond gall fod achosion lle na ddylid gwneud hynny (yn yr achosion hynny, bydd yn bwysig ystyried y pum egwyddor y cyfeiriwyd atynt uchod).

- Ni ddylai staff cyrff cyhoeddus fel y'u disgrifir yn argymhelliad 13 o Adroddiad y Pwyllgor (ee staff Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau'r Heddlu, Tân ac Achub, staff Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru) gael eu hanghymhwyso. Cred Llywodraeth Cymru y gellir tybio'n ddiogel y byddai staff o'r fath yn rhoi'r gorau i'w swyddi petaent yn cael eu hethol, oherwydd byddai parhau mewn swydd o'r fath, wrth gyflawni cyfrifoldebau fel Aelod o'r Senedd, yn rhoi baich amhosibl ar yr unigolyn.

Diwygiadau

Hyd eithaf ein gwybodaeth, rydym wedi sicrhau bod enwau cyrff y cyfeirir atynt yn y Gorchymyn drafft yn gywir ac yn gyfredol. Mae'r Gorchymyn 2020 drafft yn cynnwys:

- Rhai swyddi ychwanegol sy'n anghymhwyso deiliaid rhag bod yn aelodau o'r Senedd pan fydd y meini prawf uchod yn berthnasol iddynt;
- Swyddi presennol sydd wedi'u hailenwi ers Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015;
- Swyddi presennol sy'n ymddangos yn y Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 presennol ac y dylid eu cadw.

Mae **Atodiad B** yn rhestru'r swyddi a oedd wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn Anghymhwyso 2015 ond nad ydym yn cynnig eu cynnwys yng Ngorchymyn Anghymhwyso 2020.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Croesewir eich ymatebion ac mae ffurflen ymateb i'w chael yng gefn y ddogfen hon. Mae'r cwestiynau yn gofyn am eich barn ar y canlynol:

Cwestiwn 1:
A ydych yn cytuno y dylai'r swyddi a nodir yn y Gorchymyn Anghymhwyso drafft gael eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso nesaf?

Cwestiwn 2:
A oes unrhyw swyddi eraill, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso drafft (ac nad ydynt wedi'u hanghymhwyso fel arall o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 neu ddeddfwriaeth arall) a ddylai gael eu hanghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Senedd yn eich barn chi? Os felly, beth y dylid ei gynnwys a pham?

Cwestiwn 3:
Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol yn y cwestiynau uchod, rhowch wybod inni.

Cwestiwn 4:
Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r Gorchymyn Anghymhwyso drafft yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 5:
Eglurwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid y Gorchymyn Anghymhwyso drafft fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 6:
Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, rhowch wybod inni.

Atodiad A – Swyddi sydd eisoes yn anghymhwyso'r deiliaid rhag bod yn ymgeiswyr neu'n aelodau o'r Senedd

Cafodd deiliaid y swyddi canlynol eu cynnwys yng Ngorchymyn 2015 ond nid ydynt wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn Drafft 2015 (oherwydd eu bod wedi'u cynnwys yn yr Atodlen 1A newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i cyflwynwyd gan Atodlen 3 i Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020)	
Swyddi a chyrff sy'n cynnwys swyddi sy'n anghymhwyso	**Y swyddi sy'n anghymhwyso**
Comisiynydd Plant Cymru	Y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd
Comisiwn y Gwasanaeth Sifil	Prif Gomisiynydd y Gwasanaeth Sifil a'r holl Gomisiynwyr
Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus	Y Comisiynydd
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol	Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Comisiwn Etholiadol	Yr holl aelodau a staff
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru	Y Comisiynydd
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru	Y Prif Arolygydd
Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol	Yr holl aelodau
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru	Y Prif Weithredwr a'r holl aelodau
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	Y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd
Y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth	Y Comisiynydd
Swyddog canlyniadau ar gyfer etholaeth neu ranbarth etholiadol Senedd Cymru	
Comisiynydd y Gymraeg	Comisiynydd y Gymraeg, Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg ac aelodau Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

Atodiad B

Roedd y swyddi canlynol hefyd wedi'u hanghymhwyso yng Ngorchymyn 2015 ond nid ydynt wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn Drafft 2020:

- **Holl aelodau'r Panel Annibynnol ar gyfer Cwynion am Wasanaethau Cymdeithasol.** Daeth hyn i ben pan ddaeth Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 i rym.

- **Holl aelodau a Phrif Weithredwr y Bwrdd Strategaeth Technoleg a adwaenir fel Innovate UK.** Mae Innovate UK bellach yn bwyllgor statudol ar gyfer Ymchwil ac Arloesi yn y DU. Daeth y newid hwn i statws Innovate UK o ganlyniad i Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Enw:	
E-bost:	
Rhif ffôn:	
Cyfeiriad:	
Cod post:	
Sefydliad (lle y bo'n berthnasol)	

Dychwelyd y ffurflen hon

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw **1 Medi 2020**

Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau drwy e-bost i:

CAUMailbox@llyw.cymru

Wrth anfon eich ymateb drwy e-bost, gofynnwn ichi roi **Ymgynghori ar Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020** fel teitl i'ch e-bost.

Fel arall, cwblhewch y ffurflen ymateb â'i dychwelyd yn y post i'r cyfeiriad canlynol:

Y Cyfansoddiad a Chyfiawnder
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Cwestiwn 1. A ydych yn cytuno y dylai'r swyddi a nodir yn y Gorchymyn Anghymhwyso drafft gael eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso nesaf?

Ydw ☐
Nad ydw ☐

Os na, eglurwch pam

Cwestiwn 2. A oes unrhyw swyddi eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso drafft (nad ydynt wedi'u hanghymhwyso fel arall o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 neu ddeddfwriaeth arall) a ddylai gael eu hanghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Senedd yn eich barn chi? Os felly, beth y dylid ei gynnwys a pham?

Oes ☐
Nac oes ☐

Os felly, beth sydd angen ei gynnwys hefyd a pham?

Cwestiwn 3. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol yn y cwestiynau uchod, defnyddiwch y blwch hwn i roi gwybod inni:

Cwestiwn 4. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r Gorchymyn Anghymhwyso drafft yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 5. Eglurwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid y Gorchymyn Anghymhwyso drafft fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 6. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y blwch hwn i roi gwybod inni:

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch:

☐